Addsawyd y wers yma ar gyfer cynulleidfa'r DU, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.

Cefnogir gan Lywodraeth Cymru
Supported by Welsh Government

BLWYDDYN 4 (8–9 OED): PREIFATRWYDD A DIOGELWCH

# Cryhau Cyfrinair

**Cwestiwn Hanfodol**: Sut mae cyfrinair cryf yn gallu helpu i ddiogelu eich preifatrwydd?

*Mae hi'n syniad da i bawb gael cyfrineiriau cryfach a mwy diogel ar-lein. Ond sut gallwn ni helpu plant i greu cyfrineiriau gwell a'u cofio? Defnyddiwch y cyngor yn y wers hon i helpu plant i greu cyfrineiriau cryf a hawdd eu cofio.*

**Bydd y dysgwyr yn gallu:**

- Diffinio'r term "cyfrinair" a disgrifio ei ddiben.
- Deall pam mae hi'n bwysig cael cyfrinair cryf.
- Ymarfer creu cyfrinair cofiadwy a chryf.

Amcangyfrif o amser: **45 mun.**

## Beth Fydd ei Angen Arnoch

Papur ysgrifennu neu lyfrau nodiadau

Sleidiau Gwers

Sefyllfaoedd Os...Wedyn...

Sefyllfaoedd Os...Wedyn... (Fersiwn Athro)

Cryfhau Eich Cyfrinair

Cryfhau Eich Cyfrinair (Fersiwn Athro)

Cwis Gwers: Fersiwn Dysgwr Fersiwn Athro

## *Adnoddau i Fynd Adref*

Gweithgaredd Teulu

Cyngor i Deuluoedd

Adnoddau Ymgysylltu i Deuluoedd



commonsense.org/education/uk/digital-citizenship/resources
Gellir ei rannu gyda phriodoledd ar gyfer defnydd anfasnachol. Caniateir ailgymysgu.

# Cryhau Cyfrinair

## Geirfa Allweddol

- **cyfrinair**: set gyfrinachol o lythrennau, symbolau a rhifau sy'n cael ei defnyddio i gyfyngu ar y mynediad at rywbeth digidol
- **ymadrodd**: grŵp o eiriau sy'n mynd gyda'i gilydd ac yn hawdd eu cofio
- **symbol**: nod ar wahân i rif neu lythyren, fel #, !, neu @.
- **enw defnyddiwr**: enw rydych chi'n ei greu i fewngofnodi i wefan, ap neu gêm

## Cynhesu: **Pssst … Beth yw Cyfrinair?** 10 mun.

1. **Gofynnwch**: *Beth sy'n rhywbeth yn eich bywyd rydych chi'n treulio amser yn ei ddiogelu?* (**Sleid 4**) Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl, gweithio mewn pâr a rhannu, ac wedyn gofynnwch i'r dysgwyr rannu â'r dosbarth. Gallai enghreifftiau gynnwys *cuddio dyddiadur, defnyddio clo beic, cadw tegan mewn lle diogel*, etc. Eglurwch mai un o'r ffyrdd mae pobl yn diogelu rhywbeth yw drwy gyfyngu ar fynediad pobl iddo.

2. **Gofynnwch**: *Gadewch i ni feddwl am pan fyddwn ni'n defnyddio dyfeisiau, fel ffôn neu gyfrifiadur. Sut ydych chi'n gallu cyfyngu pwy sy'n gallu cael gafael ar rywbeth rydych chi eisiau ei ddiogelu a pham byddech chi'n cyfyngu ar y mynediad iddo?*
   Gallai enghreifftiau gynnwys diogelwch cyfrinair, cloi dyfais, sganiwr ôl bys a pheidio â gadael i bobl eraill ddefnyddio'r ddyfais.

3. **Dywedwch**: *Un o'r ffyrdd mwyaf cyffredin o ddiogelu eich dyfeisiau a'ch gwybodaeth ar-lein yw drwy ddefnyddio cyfrinair. Mae **cyfrinair** yn set gyfrinachol o lythrennau, symbolau a rhifau sy'n cael ei defnyddio i gyfyngu ar y mynediad at rywbeth digidol. Fodd bynnag, mae rhai cyfrineiriau yn gryfach nag eraill, oherwydd eu bod yn anoddach i'w gweithio allan. Gadewch i ni ymchwilio i weld pam mae cyfrineiriau cryf yn bwysig a sut gallwch chi wneud yn siŵr bod eich cyfrineiriau chi yn gryf.* (**Sleid 5**)

## Gwerthuso: **O Na! Os … Wedyn …** 20 mun.

1. **Rhannwch** y **daflen Sefyllfaoedd O Na! Os … Wedyn**. Dywedwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n gwneud gweithgaredd jig-so i ddeall PAM mae cyfrineiriau'n bwysig.


Gellir ei rannu gyda phriodoledd ar gyfer defnydd anfasnachol. Caniateir ailgymysgu.

# Cryhau Cyfrinair

2. **Rhannwch** y dosbarth yn bum grŵp a dweud wrth y myfyrwyr mai dyma yw eu grŵp "cartref". Gofynnwch i ddysgwr ddarllen cyfarwyddiadau'r daflen yn uchel. (**Sleid 6**)

3. **Neilltuwch** un o'r sefyllfaoedd o'r daflen i bob grŵp. Gadewch i'r grwpiau weithio am bump i saith munud.

4. **Rhannwch** y dosbarth yn grwpiau newydd, er mwyn i bob grŵp gynnwys o leiaf un dysgwr o bob sefyllfa (1, 2, 3, 4 a 5). Os oes angen, mae'n bosibl cael mwy nag un person o grŵp "cartref" penodol mewn grŵp "arbenigwyr". Rhowch bump i saith munud i bob "arbenigwr" gyflwyno, wrth i weddill y grŵp wneud nodiadau. (**Sleid 6**)

5. **Dewch yn ôl at eich gilydd** a gofyn: *Ar sail y sefyllfaoedd hyn, pam ydych chi'n meddwl ei bod hi'n bwysig cael cyfrinair cryf? Cymerwch eich tro yn rhannu eich syniadau â'ch partner.* Rhowch funud iddyn nhw rannu mewn parau.
   Gofynnwch i'r dysgwyr rannu eu hatebion. Os bydd angen, gofynnwch i'r dysgwyr gyfeirio'n uniongyrchol at y sefyllfaoedd a'r canlyniadau a fyddai'n digwydd petai cyfrinair rhywun yn cael ei ddatgelu. Gallai enghreifftiau gynnwys: colli arian, pobl yn gwybod eich gwybodaeth breifat, dwyn hunaniaeth a chanlyniadau posibl eraill yn y dyfodol.

---

## Creu: **Cryfhau Eich Cyfrinair** 10 mun.

1. **Dywedwch**: *Efallai fod y canlyniadau rydyn ni newydd fod yn siarad amdanyn nhw'n ymddangos yn frawychus, ond mae rhywbeth gallwch chi ei wneud i wneud yn siŵr na fydd neb byth yn gallu dyfalu eich cyfrinair. Dyma gamau pwysig i gryfhau eich cyfrinair.*

2. **Rhannwch** a thaflunio'r **daflen Cryfhau Eich Cyfrinair**. Dywedwch: *Un ffordd o greu cyfrinair cryf yw dechrau gydag ymadrodd cofiadwy. Mae **ymadrodd** yn grŵp o eiriau sy'n mynd gyda'i gilydd ac yn hawdd eu cofio. Rydyn ni'n mynd i ymarfer rownd gyda'n gilydd drwy ddefnyddio'r ymadrodd, "Mae gas gen i arogl caws glas." Felly rydyn ni eisoes wedi cwblhau cam un, sef meddwl am ymadrodd.* (**Sleid 7**)

3. **Gofynnwch** i ddysgwr ddarllen cam dau. Gofynnwch: *Pa air fyddai ein hymadrodd enghreifftiol yn ei greu?* Gofynnwch i ddysgwr ateb ac ychwanegu "mggiacg" ar y daflen sydd wedi cael ei thaflunio.

4. **Ewch** drwy gamau tri i bump: gan ddarllen y cam yn uchel, a gofyn i'r dysgwyr ateb a chwblhau'r **adran Ymarfer** ar y daflen. Bydd atebion y dysgwyr yn amrywio oherwydd bydd y


Gellir ei rannu gyda phriodoledd ar gyfer defnydd anfasnachol. Caniateir ailgymysgu.

# Cryhau Cyfrinair

dysgwyr yn dewis newid llythrennau gwahanol yn briflythrennau ac yn defnyddio rhifau gwahanol. Os bydd angen, eglurwch y gall y dysgwyr roi'r rhifau unrhyw le yn y cyfrinair.

5. **Dywedwch**: *Nawr dilynwch y camau hyn i feddwl am gyfrinair eich hun. Gweithiwch ar eich pen eich hun i lenwi* ***adran Eich Tro Chi*** *y daflen.* Rhowch bum munud i'r dysgwyr gwblhau'r daflen.

---

## Cloi'r Sesiwn: **Nodiadau Awgrymiadau Cyfrinair** 5 mun.

1. **Tafluniwch Awgrymiadau Cyfrinair (Sleid 8)** a darllen bob un yn uchel. Gofynnwch i'r dysgwyr lenwi'r adrannau gwag ar eu taflen wrth i chi eu darllen. Ar gyfer yr awgrym olaf, eglurwch fod **symbol** yn *nod ar wahân i rif neu lythyren, fel #, !, neu @.*

2. **Dywedwch**: *Wrth i chi fynd yn hŷn, bydd cael cyfrinair cryf yn bwysicach fyth. Bydd cyfrineiriau yn helpu i ddiogelu eich proffiliau rhwydweithio cymdeithasol pan fyddwch chi yn yr ysgol uwchradd, yn cadw eich graddau'n breifat pan fyddwch chi yn y brifysgol, ac yn diogelu eich cyfrifon banc a'ch cyfrifon siopa ar-lein pan fyddwch chi'n oedolyn.*

3. **Gofynnwch** i'r dysgwyr gwblhau'r **Cwis Gwers**. Anfonwch nhw adref gyda'r **Gweithgaredd Teulu** a'r **Cyngor i Deuluoedd**.

---

## Adnoddau Ychwanegol

1. **Cyn y wers:** Fel gweithgaredd dewisol, gofynnwch i'r dysgwyr chwarae'r gêm **Password Protect** yn Digital Passport™ gan Common Sense Education. Bydd hyn yn helpu i gyflwyno prif gysyniadau'r wers hon. I weld rhagor, edrychwch ar y Digital Passport Educator Guide.


Gellir ei rannu gyda phriodoledd ar gyfer defnydd anfasnachol. Caniateir ailgymysgu.